



ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR

12 TACHWEDD 2015

Adroddiad gan: Reolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Adroddiad Blynyddol GwE 2014-15

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer 2014-15.

2.0 Cefndir

2.1 Fel y datgenir yng Nghytundeb Rhyng-Awdurdod GwE, bydd GwE yn adrodd yn flynyddol am berfformiad y Gwasanaeth o ran cyflawni Swyddogaethau'r Gwasanaeth a'r Nodau Allweddol

3.0 Materion i'w hystyried

Adnabuwyd deilliannau â blaenoriaeth ar gyfer 2014-15 yng Nghynllun Busnes Blynyddol GwE a chytunodd y Cyd-bwyllgor a'r awdurdodau lleol unigol arnynt. Roeddent fel a ganlyn:

Adran 1 : Blaenoriaethau allweddol i wella deilliannau dysgwyr

1. Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2+ ar ddiwedd CA4
 2. Codi safonau dysgwyr sydd â hawl i PYD
 3. Codi safonau dysgwyr yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar draws y rhanbarth
 4. Cynyddu niferoedd mewn Cymraeg Iaith Gyntaf, yn ogystal â chodi safonau, ar draws y rhanbarth yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol unigol
 5. Cynyddu cyfran y dysgwyr 16 oed sy'n cyflawni o leiaf 5 gradd A* neu A erbyn diwedd CA4
 6. Sefydlu a hybu model rhanbarthol effeithiol ar gyfer cymorth ysgol i ysgol
 7. Datblygu arweinyddiaeth a dysgu ac addysgu o safon ar bob lefel
 8. Cefnogi ysgolion i ddatblygu prosesau asesu, safoni a cymedroli mwy cadarn ac effeithiol
-

Adran 2 : Blaenoriaethau allweddol ar gyfer datblygu cynhwysedd busnes a swyddogaethau GwE fel sefydliad

1. *Datblygu cynhwysedd busnes ac arweinyddiaeth er mwyn cyflawni swyddogaethau allweddol.*
2. *Sicrhau bod GwE yn cael ei lywodraethu yn effeithiol.*
3. *Sicrhau trefn archwilio a sicrhau ansawdd gadarn ar bob lefel.*
4. *Sicrhau bod GwE yn dod yn bartner arweiniol cynaliadwy ac effeithiol o fewn y gymuned addysg.*

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn manylu ar y cynnydd a wnaed yn erbyn y deilliannau â blaenoriaeth hyn

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen hon

9.0 Atodiadau

9.1 Adroddiad Blynyddol GwE 2014-15

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Rhoddir unrhyw sylwadau yn y cyfarfod.

Swyddog Cyllid Statudol:

Dim i'w ychwanegu at yr adroddiad o ran priodoldeb ariannol.
